

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 18 Mehefin 2018

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: Gwasanaethau Deintyddol: Safonau Gwasanaethau ar gyfer Tawelu Ymwybodol mewn lleoliad gofal deintyddol

Dyddiad Adolygu
Mai 2021

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol
Pob gwasanaeth deintyddol sy'n darparu neu sy'n
bwriadu darparu tawelu ymwybodol mewn lleoliad
gofal deintyddol yng Nghymru

Angen gweithredu erbyn:

Ar unwaith

Anfonir gan:

Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol
Colette Bridgman, Prif Swyddog Deintyddol

Enw Cyswllt yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru:

Lisa Howells, Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol

Lisa.howells4@llyw.cymru

Ffôn: 0300 025 1482

Dogfen(nau) amgaeedig: Atodiad 1: Safonau Gwasanaethau ar gyfer Tawelu Ymwybodol mewn lleoliad gofal deintyddol

Gwasanaethau Deintyddol: Safonau Gwasanaethau ar gyfer Tawelu Ymwybodol mewn lleoliad gofal deintyddol

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn cyflwyno Safonau Gwasanaeth newydd ar gyfer Tawelu Ymwybodol mewn lleoliad gofal deintyddol . Mae'r safonau gwasanaeth ar gael yma:

<https://lyw.cymru/tawelu-ymwybodol-canllawiau-i-fyrddau-iechyd-gweithwyr-iechyd-deintyddol>

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru a'r safonau'n disodli nifer o ddogfennau:

- Canllawiau'r Pwyllgor Sefydlog Cynghori ar Ddeintyddiaeth (SDAC) 2003 'Conscious Sedation in the Provision of Dental Care';
- SDAC 2007 'Standards for Conscious sedation in Dentistry: Alternative Techniques';
- Commissioning conscious sedation services in primary dental care – Yr Adran Iechyd, Mehefin 2007;
- Rhaglen Effeithiolrwydd Clinigol deintyddol yr Alban (SDCEP) Conscious Sedation in Dentistry, 3^{ydd} argraffiad, 2012.

- Grŵp Arbenigol Annibynnol ar Safonau Hyfforddi ar gyfer Tawelu mewn Deintyddiaeth (IEGTSSD) Guides Paediatric | Advanced Conscious Sedation Techniques for Paediatric Patients Training Syllabus
- Canllawiau IEGTSSD – CPD – A Guide to Maintaining Professional Standards in Conscious Sedation for Dentistry;
- Canllawiau IEGTSSD – Adult – Advanced Conscious Sedation Techniques for Adult Patients Training Syllabus.

Dylai'r safonau hyn gael eu defnyddio gan fyrddau iechyd sy'n comisiynu a/neu'n darparu gwasanaethau tawelu ymwybodol deintyddol y GIG a thimau deintyddol sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Byddant yn berthnasol hefyd i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau preifat ym maes tawelu ymwybodol deintyddol.

Mae angen i Fyrddau Iechyd weithio gyda darparwyr presennol a chytuno ar amserlen ar gyfer mabwysiadu'r safonau newydd hyn. Dylai Byrddau Iechyd a darparwyr anelu at gydymffurfio cyn gynted â phosibl ond beth bynnag rhaid i bob darparwr gydymffurfio â'r safonau erbyn 1 Ebrill 2020.

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru a'r safonau'n egluro gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer tawelu ymwybodol mewn gofal deintyddol. Maent yn adlewyrchu "Service Standards for Conscious Sedation in a Primary Care Setting" a gyhoeddwyd yn Lloegr yn 2017:

<https://www.england.nhs.uk/publication/commissioning-dental-services-service-standards-for-conscious-sedation-in-a-primary-care-setting/>.

Mae'r safonau'n disgrifio'r consensws ynghylch tawelu ymwybodol mewn deintyddiaeth a'r angen am newid yn sgil cyhoeddi:

- Safe Sedation Practice for Healthcare Procedures: Standards and Guidance, Academi'r Colegau Meddygol Brenhinol (AoMRC), 2013
- The Intercollegiate Advisory Committee for Sedation in Dentistry (IACSD) Standards for Conscious Sedation in the Provision of Dental Care, 2015

- Conscious Sedation in Dentistry, trydydd argraffiad, a gyhoeddir gan Raglen Effeithiolrwydd Clinigol Deintyddol yr Alban (SDCEP), 2017

Mae'r safonau'n:

- cefnogi byrddau iechyd i gontractio a/neu ddarparu tawelu ymwybodol mewn gofal deintyddol;
- cefnogi clinigwyr a'u timau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn unol â safonau y cytunwyd arnynt:
- amlinellu bwriadau Llywodraeth Cymru ymhellach.

Mae'r safonau'n cyd-fynd â Fframwaith Cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG (2018 i 2021) sy'n cynnwys gofynion ar gyfer:

- Ansawdd a Diogelwch – ysgogi gwelliant o ran diogelwch, canlyniadau, effeithlonrwydd a bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaethau
- Gofal Iechyd Darbodus sy'n Seiliedig ar Werth - gofal iechyd sy'n addas ar gyfer anghenion ac amgylchiadau cleifion.

Maent hefyd yn cefnogi nodau ehangach y strategaeth genedlaethol '*Ffyniant i Bawb*' sy'n nodi barn gyffredin am y blaenoriaethau strategol a'r dewisiadau ynghylch gwasanaethau iechyd a gofal yn y dyfodol.

Mae arweinwyr polisi, clinigwyr a byrddau iechyd wedi cyfrannu at ddatblygu'r safonau sy'n disgrifio sut y dylai gofal deintyddol gyda thawelu ddatblygu i sicrhau diogelwch cleifion, cysondeb a rhagoriaeth mewn gwasanaethau tawelu ym maes gofal deintyddol y GIG

Caiff y safonau gwasanaeth eu hadolygu a'u diweddarau o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes.

Fframwaith Statudol

Cynhwysir pwerau a dyletswyddau statudol y GIG yng Nghymru yn bennaf yn Neddf y GIG (Cymru) 2006. Er bod Deddf y GIG 2006 yn gymwys i'r GIG yn Lloegr, mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru a Lloegr.

Mae Deddf GIG (Cymru) 2006 yn cydgrynhai ystod o Ofynion Rheoliadol yn ymwneud â hyrwyddo a darparu'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae'n nodi:

- Y ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo'r gwasanaeth iechyd; a
- Pŵer cyffredinol i ddarparu gwasanaethau.

Yn ogystal â:

- Darparu gwasanaethau penodol;
- Darparu Gwasanaethau heblaw yng Nghymru;
- Contractau'r GIG; a
- Darparu Gwasanaethau heblaw gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 72 yn gosod dyletswydd ar gyrrff y GIG i gydweithredu â'i gilydd wrth arfer eu swyddogaethau.